

Y ddadl amddiffyn plant dros wahardd smacio

'Sdim Curo Plant! Cymru

Medi 2012

Vivienne Laing, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus NSPCC Cymru/Wales

Yr NSPCC yw un o'r aelodau a sefydlodd 'Sdim Curo Plant! Children are Unbeatable! (SCP!/CAU!), sef cyngheir o lawer o sefydliadau sy'n ymgyrchu i sicrhau bod plant yn cael amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith ar ymosodiadau yng Nghymru. Mae llawer o rieni'n dadlau bod ganddynt yr hawl i ddisgyblu eu plant fel maent yn dewis, ac nad yw smacio yn niweidio eu plant. Dadl yr NSPCC yw nad oes y fath beth â 'smacio diogel'; ynghlwm mewn unrhyw achos o smacio mae risg anaf anfwriadol, megis slap sy'n peri i blentyn bach syrthio a tharo eu pen. Nod yr NSPCC yw dod â chreulondeb plant i ben, ac mae ein safbwynt ar y mater hwn yn glir – ni ddylai plant gael eu taro byth.

Y gyfraith

Pan gyflwynwyd Adran 58 yn Neddf Plant 2004, cyfyngwyd y defnydd o amddiffyniad 'cosb resymol', fel na ellid ei ddefnyddio bellach pan gyhuddir pobl o achosi gwir niwed corfforol neu greulondeb i blentyn, ond yn hytrach yn wyneb cyhuddiadau o ymosodiad cyffredin yn unig. Mae'r penderfyniad ynghylch ai ymosodiad cyffredin ai peidio yw'r cyhuddiad yn dibynnu ar a yw'r croen yn goch am gyfnod hwy na thros dro, neu a yw'r anaf yn fwy na rhywbeth byrhoedlog, dibwys. O ganlyniad, mae'r gyfraith yn dal yn aneglur ac yn dal i ganiatáu cosbau a allai fod yn beryglus, megis ysgwyd neu daro'r pen. Disgrifiodd Canolfan Gyfreithiol¹ y Plant gyflwyno Adran 58 fel methiant arall i

amddiffyn plant, a dywedodd nad yw'r sefyllfa bresennol, 'nad yw'n bendant o blaid y naill safbwynt na'r llall, yn rhoi i blant yr amddiffyniad rhag ymosodiad y mae ei angen arnynt.'

Mae'r NSPCC wedi ymgyrchu ers blyneddau lawer dros wahardd cosb gorfforol i blant oherwydd bod hynny'n amlwg yn torri eu hawliau. Rydym ni o'r farn bod amddiffyniad Adran 58 yn amwys ac y dylid ei ddileu oherwydd

- ei fod yn caniatáu i rieni a gofawyr ddefnyddio lefel fympwyol o drais yn erbyn eu plant, a all droi yn gam-drin corfforol neu achosi anaf difrifol;
- na all gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gyflwyno neges glir fod taro a brifo plant yn erbyn y gyfraith;
- bod plant yn deall bod hawl i'w brifo, ac felly dydyn nhw ddim yn cwyno;
- bod y cyhoedd sy'n gweld plant yn cael eu smacio yn gwybod bod hynny'n cael ei ganiatáu ac felly yn llai tebygol o roi gwybod amdano.

Hawliau Plant

Mae llawer o ddadleuon cryf dros ddarparu amddiffyniad cyfartal i blant, ond mae'r ddadl hawliau plant yn ddiawms. Yn ôl Erthygl 19 o CCUHP² mae rhaid i'r wladwriaeth 'gymryd pob cam deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol priodol i amddiffyn y plentyn rhag pob math ar drais corfforol neu feddyliol.' Ar ben hynny, mae Erthygl

37 yn nodi: 'Ni chaniateir i unrhyw blentyn ddiodeff poenydio na thriniaeth neu gosb arall greulon, anynnol neu ddiraddiol.' Bellach y Deyrnas Unedig yw un o bedair gwlad yn unig yn yr UE sydd heb wahardd cosb gorfforol i blant, nac ymrwymo i waharddiad llwyr. Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn glir bod cyfraith y DU yn torri hawliau plant yn hyn o beth, ac ar dri achlysur (1995, 2002 a 2008) mae wedi argymhell amddiffyniad cyfartal i'r DU. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor ar y DU yn 2008³: 'Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch methiant plaid y Wladwriaeth i wahardd yn benodol bob cosb gorfforol yn y cartref, ac mae'n pwysleisio ei farn nad yw bodolaeth unrhyw amddiffyniad mewn achosion o gosbi plant yn gorfforol yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn.' Aeth adroddiad 2008⁴ ymlaen i argymhell y dylai'r DU 'wahardd fel

mater o flaenoriaeth bob cosb gorfforol o fewn y teulu, gan gynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol.' Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth a fydd yn cyflawni amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith ar ymosodiad yn fater a gofnodwyd yn gyhoeddus ers 2002. Trwy'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i osod dyletswydd gyfreithiol ar ei Gweinidogion, pryd bynnag y byddant yn ymarfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyladwy i CCUHP. Mae SCP!/CAU! yn credu bod rhwymedigaeth ymhlwg yn hynny i Lywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn dileu Adran 58.

Tystiolaeth

Yn ogystal â'r rhwymedigaeth i estyn i blant yr hawl sylfaenol i gael parchu integriti corfforol ac urddas dynol, ac amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith, mae

Dyfyniadau rhieni o ddogfen yr NSPCC (2008) 'O safbwynt rhiant – teuluoedd yn trafod smacio'

"Gofynnodd fy merch fach bump oed i mi unwaith: 'Pam rwy'ti'n cael fy mwrw i, os dwyf fi ddim yn cael bwrw fy ffrindiau?'" Ali, tad Freya

"Fel rhiant fe wnes i smacio o bryd i'w gilydd, ond fe ddes i i weld nad oedd yn ffordd effeithiol na derbyniol o ddisgyblu. Rwy'n falch o ddweud bod fy mhlant yn rhieni sydd wedi cael hyd i strategaethau disgyblu eraill, mwy cadarnhaol a llai diraddiol." Margaret, mam a mam-gu

Ystadegau ChildLine

Rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011, cynhaliodd ChildLine gyfanswm o 265,458 o ryngweithiadau cwnsela (heb gynnwys Cysylltiadau Trydydd Parti). O'r rhain, prif bryder 16,844 o ryngweithiadau cwnsela oedd cam-drin corfforol, sef 7% o gyfanswm y rhyngweithiadau cwnsela a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.



dadleuon cryf yn cefnogi hynny ar sail tystiolaeth. Dengys y dystiolaeth yn glir bod sgîl-ffeithiau hir dymor niweidiol i gosb gorfforol. Nododd meta-ddadansoddiad o ymchwil i gosb gorfforol i blant, a gynhaliwyd gan Elizabeth Gershoff⁵ yn 2002, ei bod yn gysylltiedig ag 11 ymddygiad negyddol, yn cynnwys herio, dicter ac ymosodedd cynyddol.

Yn ogystal â'r sgîl-ffeithiau hyn, mae llawer o dystiolaeth hefyd bod cosb gorfforol yn aneffeithiol yn yr hir dymor fel dull o ddisgyblu plant. Yn 2005 daeth Murray Strauss⁶ i'r casgliad nad oedd cosb gorfforol 'yn fwy effeithiol na dulliau eraill o gywiro a rheoli.' O adolygu'r dystiolaeth, canfu fod cyfradd uchel o fethiant ar gyfer pob dull o gywiro a rheoli ymddygiad plant bach, a bod y gyfradd o 'ailadrodd ymddygiad' yn rhyw 50% ymhen dwy awr, ac yn 80% o fewn yr un diwrnod. Dadl Strauss, felly, yw bod rhiant bron yn sicr o ddarganfod nad yw strategaethau disgyblu amgen megis amser o'r neilltu neu resymu yn gweithio, ac 'oherwydd bod ein diwylliant yn dweud wrthym fod smacio yn gweithio pan fo pethau eraill wedi methu, mae rhieni'n troi at smacio.'

Yn achos y mwyafrif o rieni, nid yw slap achlysurol yn troi'n drais difrifol. Fodd bynnag, ar sail profiad yr NSPCC, gwneir y rhan fwyaf o gam-drin corfforol yn enw disgyblaeth neu gosb. Yn y sefyllfa waethaf, mae llawer o farwolaethau cam-drin plant yn digwydd

trwy ymosodiadau corfforol. Roedd marwolaethau Victoria Climbié a Peter Connolly yn cynnwys cosb gorfforol lem. Ar y cychwyn, cosbodd 'gofalwyr' Victoria Climbié hi drwy ei slapio a'i smacio, ond trodd hynny'n boenyddo erchyll a arweiniodd at ei marwolaeth. Merch chwech oedd Lauren Wright (2000), a gurwyd i farwolaeth gan ei llysfam; roedd pobl yn y pentref wedi ei gweld yn cael ei tharo, ond teimlent nad oedd ganddynt hawl i ymyrryd. Merch 13 mis oedd Carla Nicole Bone (2002) a lofruddiwyd gan gariad ei mam, a oedd yn ei disgyblu am wrthod cerdded. Dywedodd wrth yr heddlu iddo ddechrau cosbi'r plentyn drwy 'smacio oedd ddim yn eithafol... Dyna sut ces i fy magu. Wnaeth e erioed niwed i fi.' Dyna pam mae'r NSPCC yn credu y byddai amddiffyniad gwell i bob plentyn petai gweithwyr cymdeithasol yn gallu rhoi neges syml, ddiamwys i rieni ei bod yr un mor anghyfreithlon ac annerbyniol taro plentyn â tharo unrhyw un arall.

Casgliad

Mae magu plant yn waith anodd, ac mae ffiniau clir a chyson yn hanfodol os yw plant i gael plentyndod diogel, hapus. Nid yw'r mwyafrif o rieni am daro eu plant, ond mae'r gyfraith yn eu drysu. Bydd cosb gorfforol dderbyniol ym marn rhai rhieni yn cael ei hystyried yn gamdriniaeth gan eraill. Mae Adran 58 yn ceisio tynnu llinell rhwng cosb resymol ac afresymol, ond drwy wneud hynny, yn ogystal â thorri hawl i plentyn, mae'n creu

amwyster a dryswch i rieni a gweithwyr proffesiynol, ac mae'n beryglus i blant. Mae llawer o gyrff yn cefnogi gwahardd cosb gorfforol i blant a dileu Adran 58, ond mae angen neges glir ar lefel genedlaethol. Yr unig ffordd ddiogel o amddiffyn pob plentyn yw dileu Adran 58, ac ar yr un pryd addysgu rhieni ynghylch sut mae

defnyddio dulliau di-drais effeithiol i ddisgyblu plant. Mae SCP!/ CAU! yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn dileu Adran 58 a dod yn llywodraeth gyntaf y DU i wahardd cosb gorfforol i blant.

Datganiad ar y cyd gan Sefydliadau Rhianta

Mae'r Sefydliad Teuluoedd a Rhianta, Parenting UK a'r Ffederasiwn Ryngwladol ar gyfer Addysg Rhianta ymhlith llawer o sefydliadau sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd a phlant sy'n credu ei bod hi'n hen bryd dileu amddiffyniad "cosb resymol" er mwyn rhoi amddiffyniad cyfartal i blant o dan y gyfraith ar ymosodiad. Rydym yn gweld hynny fel diwygiad angenrheidiol brys, nid er lles a diogelwch plant yn unig, ond er budd i deuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol.

Cyfeirnodau

- 1 Clarridge, J. (2008) Law on Smacking: another failed attempt to protect children. *Childright* Rhifyn 251
- 2 UNCR: <http://www2.ohchr.org/english/law/crc.htm>
- 3 UN Committee Report <http://www2.ohchr.org/english/bodies/crc/docs/AdvanceVersions/CRC.C.GBR.CO.4.pdf>
- 4 Ibid
- 5 Gershoff, E.T. (2002) Corporal punishment by parents and associated child behaviours and experiences: a meta-analytical and theoretical review *Psychological Bulletin*, Cyfrol 128, Rhifyn 4
- 6 Strauss, M.A. (2005) Children should never, never be spanked no matter what the circumstances, *Current Controversies on Family Violence* United States: Sage



Mae Plant yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnal Ymgyrch 'Sdim Curo Plant! Os hoffech gefnogi 'Sdim Curo Plant!', neu gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â cau@childreninwales.org.uk, Plant yng Nghymru, 25 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BZ, Ffôn: 029 2034 2434